

**COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A
CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWDYD YN YR
YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE
COLWYN, NOS FAWRTH, 27^{AIN} HYDREF 2015 AM 6.30 P.M.**

YN BRESENNOL: Y Maer, Cynghorydd Dr S. Roy
Cynghorydd N. Bastow (Cadeirydd)
Cynghorwyr W Bagnall, R. Foreman, Mrs L. Griffiths, Mrs M.
Jones, J. Pearson (Warden Coed), S. Williams, C. Wood

SWYDDOG: Mrs C J Earley, Clerc y Dref

HEFYD YN BRESENNOL: Mr Victor Turner Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

208/15 Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth a'r Cynghorwyr Mrs L. Edwards a C. Perry.

209/15 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu gysylltiadau sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

210/15 Cofnodion:

Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 6^{ed} Hydref 2015 a'u llofnodi i fod yn adroddiad cywir.

211/15 Ymwelydd:

Croesawyd Mr Vic Turner, Rheolwr Traffig a Rhwydwaith, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) i'r cyfarfod gan y Cadeirydd er mwyn iddo ymateb i'r pryderon a fynegwyd am faterion yn ymwneud â pharcio a'r cwestiwn o gyflwyno cyfyngiadau cyflymdra o 20 m.y.a.

Dechreuodd Mr Turner trwy ymdrin â'r pryderon am barcio a godwyd cyn y cyfarfod, yn cynnwys parcio ar balmentydd / llwybrau troed (mae gan yr Heddlu pwerau i weithredu os mae hyn yn achosi rhwystr, ond ni chaiff CBSC gorfodi oni bai bod llinellau melyn yn bodoli); pobl gyda bathodynnau anabledau yn parcio ar linellau melyn dwbl ger cyffyrdd (mae CBSC yn ymdrin â'r mater hwn ar hyn o bryd); gweledd gwael ar gyffordd Colwyn Crescent; y posibilrwydd o ehangu'r cyfyngiadau 'dim llwytho' (ni ddylid ei ddefnyddio oni bai yn hollol angenrheidiol, i atal gor-reoleiddio); proses ddrud i gyflwyno cyfyngiadau newydd oherwydd yr angen am gyhoeddusrwydd; y broblem o barcio wrth y siopau ger y Coleg / Geordies (fe weithredir ar hyn); cyfyngu ar garafanau / camperfanau yn parcio dros nos (diolchwyd am hyn); cais am adolygiad o'r cyfyngiad ar gyflymdra yn Hen Golwyn (cafodd ei adolygu'n ddiweddar gan gadw at ganllawiau Llywodraeth Cymru).

Aeth ymlaen i amlinellu gwaith Grŵp Tasg a Gorffen CBSC o asesu'r angen am barthau 20 m.y.a. yng nghyffiniau ysgolion lleol. Cafodd y polisi ar feini prawf gweithredu'r parthau hyn eu cymeradwyo erbyn hyn gan CBSC ac fe wneir cais mewnol am gyllid cyfalaf i weithredu'r rhain yn y 28 ysgol yn y Sir sy'n cyd-fynd a'r meini prawf hyn (cyfartaledd y cyflymdra ar hyn o bryd yw 18-24 m.y.a.). Fydd angen cael Arwyddion a Gorchmynion Rheoleiddio Traffig am gost o £2,500 i bob ysgol, a'r bwriad yw lledaenu'r costau hyn dros dair blynedd. Bydd dewisiadau eraill yn cael eu hystyried ar gyfer yr ysgolion hynny nad ydynt yn cyd-fynd a'r meini prawf. Yna cafwyd trafodaeth am barcio anaddas ger ysgolion, a CBSC yn targedu hyn fel ymgyrch cyfredol trwy'r swyddog diogelwch ffyrdd.

Diolchwyd i Mr Turner am fod yn bresennol ac yna gadawodd y cyfarfod.

212/15 Materion yn Codi o Gofnodion Blaenorol:

a. Cofnod 166/15 - Promenâd Rhos:

Cyflwynodd y Clerc ateb Pennaeth Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau CBSC yn cadarnhau bod ei staff wedi adolygu'n ddiweddar y dewisiadau sydd ar gael i ddatrys y problemau a godwyd, ond bydd unrhyw weithred yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael.

Penderfynwyd gofyn am fwy o wybodaeth am y dewisiadau sy'n cael eu hystyried, unrhyw ddewis(iadau) dewisol, amcangyfrif o'r costau a'r amserlen a ragwelir pe bae cais / ceisiadau am gyllid yn llwyddiannus.

213/15 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol oddi wrth GBSC i'w ystyried:

a. Arolwg Parcio:

Cyflwynodd y Clerc rhybudd am ddechrau'r arolwg cynhwysfawr o barcio ar draws y Sir, ac yn gofyn am sylwadau'r Cyngor Tref mewn perthynas â'r tair ardal: Promenâd Bae Colwyn (rhennir yn 6 parth), maes parcio di-dâl Ffordd Berthes, maes parcio talu ac arddangos Rhodfa Colwyn. Cyflwynodd y Clerc hefyd, canlyniadau'r ymgynghoriad parcio diweddar a gyflawnwyd gan yr Aelodau yn ystod Awst /Medi.

Penderfynwyd penodi gweithgor, yn cynnwys y Cynghorwyr Mrs L Griffiths, J Pearson, B Bagnall a C Wood, a dirprwyo'r cyfrifoldeb iddynt i baratoi ateb drafft i'r holiaduron i'w dosbarthu i bob aelod o'r Pwyllgor cyn ei gyflwyno erbyn 9^{fed} Tachwedd.

b. Rheoliadau Traffig Dros Dro:

Cyflwynodd y Clerc rhybudd o waith roi arwyneb newydd ar Ffordd Conwy (Rhodfa Walshaw i Quenns Drive) i'w gynnal o 23/11 hyd at 8/12/15.

c. Cyfarfodydd Rhwydwaith y Clercod a'r Fforwm gyda CBSC:

Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar am y ddau gyfarfod a gynhaliwyd ar 22^{ain} Hydref 2015.

ch. Parc Eirias - Uwchraddio Cyfleusterau Chwaraeon:

Cyflwynodd y Clerc copi o adroddiad a baratowyd gan Bwyllgor Craffu Cymunedau a Chabinet CBSC yn rhoi manylion am y cynlluniau i uwchraddio cae pêl-droed Glan y Don i fod yn 3G ac ailwampio ATP presennol yr ysgol ac i greu Canolfan Rhanbarthol ar Ragoriaeth yn Hoci..

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a'i nodi a chroesawu'r gwelliannau arfaethedig i'r cyfleusterau ym Mharc Eirias.

d. Byw yn y Bae:

Rhoddodd y Clerc ddiweddariad byr ar lafar yn dilyn cyfarfod y grŵp swyddogion a gynhaliwyd ar 26^{ain} Hydref. Fe nodwyd bydd Rob Diox yn gofyn am gyfarfod gyda'r Cyngor Tref cyn lansio'r ymgynghoriad cyhoeddus ar yr adolygiad o'r Prif Gynllun, mae'n debyg yn Ionawr 2016.

214/15 Goleuadau'r Nadolig:

- a. Fe nodwyd na dderbyniwyd ymateb gan fasnachwyr Llandrillo yn Rhos a Hen Golwyn ynglŷn â'r posibilrwydd o dderbyn pecynnau coed bach.

Penderfynwyd cyfeirio hwn yn ôl i Is-Bwyllgor Goleuadau'r Nadolig os derbynnir ymateb mewn amser i gael cyflenwad o goed bach eleni.

- b. Cyflwynodd y Clerc cais am gyllid (ailgyfeiriwyd o gyllid gweithgareddau Nadolig y Siambr Fasnach) am TAPE i roi animeiddiad ar adeilad yn Ffordd yr Orsaf am gost o £1,660. Holodd yr aelodau am y gost a'r teimlad oedd nad oedd digon o wybodaeth i allu gwneud penderfyniad.

Penderfynwyd cefnogi'r cais mewn egwyddor ond gofyn am ddadansoddiad llawn o'r costau cyn cymeradwyo'r cyllid. Fe benderfynwyd ymhellach i gyfeirio hwn yn ôl i Is-Bwyllgor Goleuadau'r Nadolig i'w gymeradwyo os bydd pryderon yn parhau am elfennau o'r costau pan dderbynnir y wybodaeth ychwanegol.

- c. Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, manylion am ymholiad anffurfiol oddi wrth y Cynghorydd Brian Cossey parthed cyllido goleuadau ar Eglwys St John, ynghyd ag ymateb cychwynol gan y Clerc.

Penderfynwyd nodi'r cais ac i gefnogi ymateb y Clerc.

- ch. Fe nodwyd bod y Swyddog Goleuo Strydoedd (CBSC) wedi ymateb i gadarnhau nad oedd y colofnau goleuo ger cylchfan West End yn addas ar gyfer addurniadau colofnau goleuo.

215/15 Gohebiaeth Arall:

Fe nodwyd bod yr eitemau canlynol o ohebiaeth ar gael gan y Clerc ar gais:

- a Cofnodion cyfarfodydd Cyfeillion Parciau Rhos a gynhaliwyd ar 30/9 a 14/10.

216/15 Cynllunio:

- a. Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd gan GBSC i'w ystyried.

Penderfynwyd cyflwyno sylwadau ar y ceisiadau hyn fel y gwelir yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.

- b. Penderfynwyd derbyn a nodi'r Penderfyniadau Cynllunio a roddwyd gan GBSC am y cyfnod 28/9/15 hyd at 25/10/15..

217/15 Ceisiadau am Drwyddedau:

Cyflwynodd y Clerc manylion am nifer o geisiadau am drwyddedau a gofnodwyd gan GBSC am y cyfnod 5/10 hyd at 16/10.

Penderfynwyd derbyn anodi'r ceisiadau am drwyddedau.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.05 pm

..... Cadeirydd